

Senario Blynyddoedd Cynnar

Mae Joanne yn feichiog ers 24 wythnos ac yn byw gyda'i phartner, Martin

Mae Joanne wedi teimlo blinder llethol trwy gydol ei beichiogrwydd ac mae'n ei chael yn anodd codi yn y bore. Mae Joanne wedi rhoi'r gorau i yfed alcohol ond yn ei chael yn anodd rhoi'r gorau i ysmegu.

Mae gan Martin a Joanne berthynas gyfnewidiol, sydd wedi cynnwys camdriniaeth gorfforol ac emosiynol. Mae gan Martin broblem gydag alcohol ac mae ganddo gefndir o gymryd cyffuriau; mae e'n dal i'w cymryd o bryd i'w gilydd.

Roedd rhieni Joanne wedi gwahanu pan oedd hi'n ifanc ac mae mewn cysylltiad â'i mam yn unig; mae'r berthynas hon dan straen ac nid yw Joanne yn derbyn cefnogaeth wrthi hi.

Mae Joanne yn dioddef gyda phryder ac iselder ac mae hyn wedi digwydd ers iddi fod yn ei harddegau.

Nid yw Joanne yn teimlo fel mynd allan ac mae'n teimlo dan straen drwy'r amser. Mae ymddygiad Martin yn anrhagweladwy ac mae hi'n teimlo ei bod yn 'cerdded ar blisg wyau' , am nad yw am darfu arno.

Mae Joanne yn geni merch fach (Amelia) chwe wythnos yn gynnar.

Roedd pwysau Amelia pan gafodd ei geni yn is na'r hyn a ddisgwylid a bu'n rhaid iddi aros yn yr ysbyty am gyfnod byr.

Ers iddi ddod gartref ag Amelia mae Joanne wedi ei chael yn anodd ymdopi am fod Amelia yn groes; nid yw'n cysgu nac yn setlo'n iawn.

Mae Joanne yn crïo llawer ac mae hyn yn peri rhwystredigaeth i Martin sydd yn gweiddi arni hi a'r babi. Mae eu perthynas yn mynd yn fwy cyfnewidiol; mae Martin yn yfed mwy ac weithiau nid yw wedi dod gartref ar ôl noson allan gyda'i ffrindiau.

Mae Joanne wedi bod yn troi at alcohol i'w helpu i gysgu yn y nos.

Mae Amelia yn dair blwydd oed ac yn mynd i feithrinfa. Roedd Amelia wedi ei chael yn anodd setlo ac mae'n flin gyda Joanne pan fydd hi'n mynd a hi i'r feithrinfa. Mae staff yn y feithrinfa wedi sylwi bod datblygiad cyfannol Amelia ar ei hôl hi o'i gymharu â'i chyfoedion. Mae Amelia yn dangos tueddiadau ymosodol tuag at ei chyfoedion.

Mae Martin yn groes gyda Joanne ac Amelia yn ddyddiol.

Mae Joanne yn ei chael yn anodd i ddelio ag ymddygiad Amelia ac mae'n dangos ei rhwystredigaeth at Martin ac Amelia.

Mae perthynas Martin a Joanne yn chwalu ac mae Martin yn symud allan.

Mae Amelia yn saith mlwydd oedd ac yn byw gyda'i mam Joanne a phartner newydd y fam, Roger.

Mae Amelia yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ond yn ei chael yn anodd ymdopi yn academaidd ac yn emosiynol. Mae Amelia yn ei chael yn anodd cynnal cyfeillgarwch oherwydd problemau ymlyniad ac ymddiriedaeth.

Mae gan Joanne a Roger berthynas gyfnewidiol ac mae Roger yn ei chael yn anodd ymdopi gyda ffrwydradau Amelia. Mae hyn yn achosi dadlau rhwng y ddau.

Mae iselder Joanne yn gwaethygu.